

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 10fed Ragfyr 2013

Presennol, Gareth Wynne Cadeirydd, Marion Bettenev, Terry Bullock, Michael Hughes, Karen Pugh, Gwawr Jones, Gareth Parry, Caerwyn Roberts, Clerc.
Ymddiheuriad, Jim Boughton, Medwen Hughes, Janet Charlton, Elisabeth Roberts.

Datgan diddordeb- Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Cofnodion - Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 11eg Dachwedd 2013.

Materion yn Codi ;

[1] Neidio o Bont-y-Pair

Cyfeiriodd y clerch at lythyr gan Mr Peter Brown Pennaeth Rheolaeth a Gwasanaeth Tai, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cadarnhau bod cyfarfod i gael ei drefnu i drafod gwahanol argymhellion i geisio datrys y broblem. Bydd gwahoddiad i gynrychiolaeth o'r Cyngor Cymuned.

[1.1] Cae Llan

Nodwyd bod y Parc Cenedlaethol wedi cael ei hatgoffa ynglŷn â'r addewid i deneuo'r coed yn ymyl y toiledau.

[1.2] Llwybr Cyhoeddus Rhif 41

Y clerch i geisio copi o'r gorchymyn a wnaed i amrywio llinell y llwybr.

[1.3] Toiledau'r Neuadd Goffa

Dyweddodd y clerch bod y cais am grant yn barod i'w gyflwyno.

[1.4] Tai Fforddiadwy

Nodwyd bod y mater ynglŷn â mynediad i briffordd yr A5 yn parhau.

[1.5] Camerâu/ Y Rhaeadr Ewynnol

Croesawyd y wybodaeth bod yr Ystâd Ancaster wedi cytuno i gyfrannu £470.00 tuag at y gost o osod camerâu.

[1.6] Costau Parcio /Maes Parcio Pont-y-Pair

Nodwyd nad oedd ymateb wedi ei dderbyn gan Reolwr Meysydd Parcio'r Cyngor Sir i wahoddiad i fynychu cyfarfod y Cyngor yn ystod mis Ionawr.

[1.7] Cysgodfa Bws Pentre' Du

Y clerch i geisio gwybodaeth pellach ynglŷn â sylwadau'r Cyngor Sir, na fyddai'r bws yn mynd heibio un arhosiad os i'r daith trwy Bentre' Du gael ei hadolygu.

Y Brîf agenda

[1.8] Materion Cynllunio

Creu Cysgodfa Ysmygu tu cefn i Westy Pont-y-Pair.
Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

[1.9]] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddosbarthwyd] a wnaed yn ystod mis Tachwedd 2013.

[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddosbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Tachwedd 2013.

[2] Baw Cwn /Pentre' Du

Penderfynwyd ysgrifennu at y trigolion yn mynegi pryder ynglŷn â baw cwn ar yr ystâd ac yn gofyn iddynt gadw eu cwn i ffwrdd o'r triongl glaswellt lle mae'r goeden Nadolig wedi ei lleoli.

[2.1] Nodwyd y wybodaeth ganlynol

[a] Cyngor BS Conwy, Adolygu Trefniadau Etholiadol, Cynigion Terfynol Drafft.

[b] Heddlu Gogledd Cymru - Y Cynllun Heddlu a Throsedd, Ail Alwad am Dystiolaeth.

Cadeirydd _____